# Ceisiadau a gyflwynir gan drawsgludwyr i Gofrestrfa Tir EF: Amrywiadau mewn enwau rhwng y gofrestr, ffurflenni, a gweithredoedd

Cofrestrfa Tir EF

Nid yw amrywiadau mewn enwau cwmnïau a cheisiadau annibynnol i newid enw wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon.

**Dechrau**

**1** A yw'r enwau ym mhaneli hunaniaeth ffurflenni cais Cofrestrfa Tir EF yn cyfateb i'r enwau yn y gweithredoedd a'r gofrestr?
- **Nac ydyn** → Gwnewch unrhyw newidiadau angenrheidiol…
- **Ydyn** → 2

**2** A yw'r enwau yn y gweithredoedd yn cyfateb i enwau'r perchnogion cofrestredig yn y gofrestr (lle bo'n gymwys)?
- **Nac ydyn** → Gwnewch unrhyw newidiadau angenrheidiol…
- **Ydyn** → 3

**3** A yw enwau'r partïon yn yr holl weithredoedd sy'n cael eu cyflwyno i'w cofrestru'n cyfateb?
- **Nac ydyn** → Gwnewch unrhyw newidiadau angenrheidiol…
- **Ydyn** → Anfonwch y cais i Gofrestrfa Tir EF

Gwnewch unrhyw newidiadau angenrheidiol i weithredoedd a/neu ffurflenni cais Cofrestrfa Tir EF i sicrhau bod yr enwau'n cyfateb ymhob dogfen.

A yw'r enw yn y gofrestr yn gywir?
- **Ydy** → Anfonwch y cais i Gofrestrfa Tir EF
- **Nac ydy** → Mae enw'r perchennog cofrestredig yn aros yn y gofrestr
- **Nac ydy** → Mae enw'r perchennog cofrestredig yn cael ei dynnu o'r gofrestr

**Mae enw'r perchennog cofrestredig yn aros yn y gofrestr**
Bydd yn rhaid ichi ddarparu un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i ddiweddaru'r enw:

- Tystysgrif briodas
- Partneriaeth sifil
- Archddyfarniad absoliwt
- Tystysgrif geni
- Pasbort
- Trwydded yrru
- Gweithred newid enw
- Datganiad o wirionedd
- Datganiad statudol

Ydych chi'n cynrychioli'r perchennog cofrestredig yn gyfreithiol?
- **Ydw** → Anfonwch y cais i Gofrestrfa Tir EF
- **Nac ydw** → Amgaewch ganiatâd/awdurdod…

Tystysgrif Trawsgludwr neu lythyr yn dweud y canlynol wrth Gofrestrfa Tir EF:
- yr enw cywir;
- pa dystiolaeth sydd gennych neu a welwyd gennych chi, y trawsgludwr, sy'n cadarnhau'r enw cywir; a
- bod gennych awdurdod neu ganiatâd wedi ei lofnodi pob perchennog cofrestredig i wneud cais ar eu rhan i ddiweddaru eu henwau yn y gofrestr

→ Anfonwch y cais i Gofrestrfa Tir EF

Amgaewch ganiatâd/awdurdod wedi ei lofnodi. Byddai'r geiriad canlynol yn ddigonol at ddibenion Cofrestrfa Tir EF:
Rwyf i/rydym ni [enw(au) y perchennog cofrestredig] yn awdurdodi [enw'r cwsmer] i:
- wneud mân newidiadau i ddogfennau trafodion a gyflwynir i'w cofrestru gyda Chofrestrfa Tir EF a llofnodi'r newidiadau hynny gan ddefnyddio blaenlythrennau ar ein rhan; a
- gwneud cais i ddiweddaru'r gofrestr perchnogaeth lle ceir amrywiad mewn enw a rhoddir tystiolaeth briodol i gyfrif am yr amrywiad

**Ydw** → Anfonwch y cais i Gofrestrfa Tir EF

**Mae enw'r perchennog cofrestredig yn cael ei dynnu o'r gofrestr**
Bydd yn rhaid ichi ddarparu un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i gyfrif am yr amrywiad:

Tystysgrif Trawsgludwr neu lythyr yn dweud y canlynol wrth Gofrestrfa Tir EF:
- yr enw cywir;
- pa dystiolaeth sydd gennych neu a welwyd gennych chi, y trawsgludwr, sy'n cadarnhau'r enw cywir

- Tystysgrif briodas
- Partneriaeth sifil
- Archddyfarniad absoliwt
- Tystysgrif geni
- Pasbort
- Trwydded yrru
- Gweithred newid enw
- Datganiad o wirionedd
- Datganiad statudol

→ Anfonwch y cais i Gofrestrfa Tir EF

Anfonwch y cais i Gofrestrfa Tir EF (yn amodol ar bob gwiriad arall) → **Diwedd**

---

Fideo ar sianel YouTube Cofrestrfa Tir EF
Sut i osgoi ymholiadau gan Gofrestrfa Tir EF: Amrywiadau rhwng y gofrestr, trosglwyddiad ac arwystl

Sylwer ei bod yn bosibl y bydd rhai ceisiadau yn arwain at Gofrestrfa Tir EF yn gofyn am ddogfennau neu dystiolaeth ychwanegol o dan ddarpariaethau Rheol 17 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

Os yw'r enw'n aros neu'n cael ei dynnu o'r gofrestr, os ydych yn cyflwyno tystiolaeth arall, caiff hyn ei ystyried ochr yn ochr â'r dogfennau eraill a anfonir gyda'r cais. Lle mae tystiolaeth mewn iaith dramor, bydd cyfieithiad Cymraeg neu Saesneg yn ofynnol